# PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Mercher, 11 Hydref 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, S.M. Allen, T.A.J. Davies, H.L. Davies, J.K. Howell, G.H. John, C. Jones, J.G. Prosser, B. Thomas, D.E. Williams and J.S. Phillips (In place of D. Nicholas)

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau
L.M. Stephens, Dirprwy Arweinydd y Cyngor

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
N. Daniel, Penaeth Gwasanaeth TGCh
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
R James
G. Ayres, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Chamber, County Hall, Carmarthen - 10.00 am - 12.15 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.C. Evans a D. Nicholas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd A. Davies | Cofnod rhif 6 - Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin 2016/17;<br>Cofnod rhif 8 – Amcanion Llesiant ac Adroddiad Monitro Perfformiad Adrannol Adnoddau a Llywodraethu 2017/18; | Mae ei chwaer yng nghyfraith yn Bennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol. |

## 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU 2016/17

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau am flwyddyn y Cyngor 2016/17 a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar waith y Pwyllgor gan gynnwys:-

- Golwg gyffredinol ar y Rhaglenni Gwaith Craffu
- Y materion allweddol a ystyriwyd
- Materion oedd wedi'u cyfeirio at y Bwrdd Gweithredol neu Bwyllgorau Craffu Eraill neu ganddynt
- Presenoldeb yr Aelodau yn y cyfarfodydd

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2016/17 - DRAFFT

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer 2016/17 a oedd yn cynnwys adroddiad cynnydd yr ail flwyddyn ar Strategaeth Gorfforaethol 2015-20, y Crynodeb o Adroddiad Blynyddol 2016/17 a'r Adroddiad Blynyddol llawn.

Pan gyhoeddwyd y Strategaeth Gorfforaethol yn 2015/20 cytunwyd y byddai adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei gynhyrchu a fyddai'n pennu 24 o fesurau canlyniadau er mwyn barnu cynnydd yr Awdurdod yn eu herbyn. Byddai'r Strategaeth Gorfforaethol yn cael ei hadolygu ar gyfer 2018/19 gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi mynnu bod yr Amcanion Llesiant yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Gorfforaethol.

Er y cyfunwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella yn yr un ddogfen yn y blynyddoedd blaenorol, cafodd y dogfennau hyn eu gwahanu eleni oherwydd roedd yn ofynnol i'r Awdurdod, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyhoeddi Amcanion Llesiant yr Awdurdod erbyn 31 Mawrth ac felly roedd yn gwneud synnwyr cyhoeddi'r Cynllun Gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ar y cyd â nhw. Ni fyddai wedi bod yn bosibl llunio'r Adroddiad Blynyddol cyn diwedd y flwyddyn.

Nodwyd ei fod yn ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) i'r Awdurdod gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiad blaenorol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i sylw, cydnabuwyd y gallai 'lefelau absenoldeb salwch staff' gael eu cynnwys yn y 'Canlyniad' 'Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau' yn hytrach nag 'Adeiladu Gwell Cyngor';
- Nodwyd bod digwyddiadau sylweddol ar waith ar draws yr Awdurdod er mwyn mynd i'r afael â lefelau boddhad y cyhoedd, a oedd yn tueddu i amrywio o flwyddyn i flwyddyn;
- O ran y pryderon ynghylch y cynnydd mewn lefelau absenoldeb salwch staff, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod y mater wedi codi yn y Pwyllgor Craffu - Cymunedau yn ddiweddar hefyd a chytunodd y Pwyllgor hwnnw i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymchwilio i'r mater. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Penaethiaid Gwasanaeth

yn cael eu galw i gyfrif am lefelau absenoldeb salwch yn eu his-adrannau penodol;

- Soniwyd am y gwell mynediad digidol y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, ond mynegwyd pryder ynghylch signal ffonau symudol gwan iawn mewn rhai mannau o'r Sir, a oedd yr un mor bwysig â mynediad i'r rhyngrwyd i fusnesau, ysgolion a thrigolion. Mewn ymateb i hyn, nodwyd bod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - y Dirprwy Arweinydd, wedi tynnu sylw at y broblem mewn llythyr at bennaeth BT a'i bod yn aros am ymateb. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Awdurdod.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Blynyddol drafft, yn cynnwys Adroddiad Cynnydd yr Ail Flwyddyn ar y Strategaeth Gorfforaethol, yn cael ei dderbyn.**

**7. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AMCANION LLESIANT 2017/18 A LLYWODRAETHU AC ADNODDAU CWARTER 1 - 1AF EBRILL I'R 30AIN O FEHEFIN 2017**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu a mesurau 2017/18 ym mhob un o'r 14 Amcan Llesiant ynghyd â chynlluniau cyflawni Llywodraethu ac Adnoddau, fel yr oeddent ar 30 Mehefin 2017 ac a ddadansoddwyd gan y Pwyllgor Craffu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

**8. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD ADRANNOL AMCANION LLESIANT 2017/18 A LLYWODRAETHU AC ADNODDAU CWARTER 1 - 1AF EBRILL I'R 30AIN O FEHEFIN 2017**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a'r mesurau yng nghynllun cyflawni Amcanion Llesiant 2017/18 a oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor, fel yr oedd ar 30 Mehefin, 2017.

Codwyd y materion/sylwadau canlynol ar yr adroddiad:-

- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y camau sy'n cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael ag absenoldeb salwch, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, yn dilyn pryderon gan Aelodau. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Fforwm Her Salwch newydd a oedd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i Benaethiaid Gwasanaeth, fel rhan o'u dyletswyddau, dros absenoldeb salwch yn eu his-adrannau. Pwysleisiwyd y cafodd y polisi presennol sy'n ymwneud ag absenoldeb salwch ei arwain gan Aelodau yn dilyn adolygiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen 2009/10 y Pwyllgor o absenoldeb salwch a gyflwynodd 40 o argymhellion. Mewn ymateb i sylw dywedwyd y barnwyd bod rôl a chost yr uned iechyd galwedigaethol yn rhoi gwerth yr arian o ran cefnogi staff a gwahoddwyd y Pwyllgor i ymweld â'r uned. Fodd bynnag, oherwydd y gallai straen gael ei achosi gan amgylchiadau yn y cartref yn hytrach na'r gwaith, roedd angen cymorth a hyfforddiant ar Reolwyr i nodi'r achos sylfaenol. Awgrymwyd y gallai fod yn briodol i'r Pwyllgor weld adroddiadau chwarterol am absenoldebau salwch.
- O ran mynediad i'r rhyngrwyd yn Sir Gaerfyrddin, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yr Awdurdod yn rhoi pwysau ar BT yn barhaus er mwyn sicrhau gwell signal band eang a ffonau symudol ar draws y sir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 derbyn yr adroddiad;**

**8.2 cyflwyno adroddiad ynghylch absenoldeb salwch i'r cyfarfod nesaf;**

**8.3 trefnu bod aelodau'r Pwyllgor yn ymweld â'r uned iechyd galwedigaethol cyn cael sesiwn anffurfiol ynghylch Adnoddau Dynol.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2016-2017

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol a restrai weithgareddau rheoli'r trysorlys a ddigwyddodd yn ystod 2016-2017 yn unol â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016-2017 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad.**

## 10. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2017 I MEHEFIN 30AIN 2017

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Chwarterol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth am y cyfnod 1 Ebrill 2017 - 30 Mehefin 2017 a oedd yn nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys a ddigwyddodd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn yn unol â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017-2018 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 22 Chwefror 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad.**

## 11. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2017/18

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad monitro a amlinellai'r sefyllfa gyllidebol ynghylch blwyddyn ariannol 2017/18 fel yr oedd ar 30 Mehefin 2017. Roedd yr adroddiad yn cynnwys:

- Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod (Atodiad A);
- Cyllideb Refeniw Adran y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol (Atodiad B);
- Monitro Rhaglen Gyfalaf Gorfforaethol 2017/18 (Atodiad C);
- Monitro Rhaglen Gyfalaf Gorfforaethol 2016/17 – y prif amrywiannau (Atodiad D);
- Cynlluniau Adran y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol 2016/17 – y prif amrywiannau (Atodiad E).

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

- Mewn ymateb i sylw dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod 'cynigion effeithlonrwydd' yn cael eu monitro'n gyson gan y cydnabyddir na fyddai modd cyflawni'r cyfan;
- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod swyddogion i fod i gyfarfod â chynrychiolwyr yr undebau i drafod y gyfradd aros, sydd ar hyn o bryd yn un o'r uchaf yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

**12. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU AR GYFER 2017/18**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2017/18 a baratowyd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglen waith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn ystod blwyddyn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gadarnhau'r Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau, yn amodol ar y newidiadau a nodwyd yn yr adroddiad peidio â chyflwyno [gweler cofnod 13 isod] ac ar gynnwys adroddiad am absenoldeb salwch [gweler cofnod 8 uchod].**

**13. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad "peidio â chyflwyno".

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

**14. COFNODION**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 28 Ebrill 2017 yn gywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**